Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Priority Childcare

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Priority Childcare

Ysgol annibynnol yw Priority Childcare, sy'n darparu addysg fewnol ar gyfer plant rhwng 8 ac 18 oed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac nad ydynt yn gallu cael addysg prif ffrwd. Agorwyd yr ysgol yn 2015, ac mae'n gweithredu mewn ystafelloedd dosbarth mewn pedwar o saith cartref plant y cwmni ar draws pedair sir yn Ne Cymru.

Mae 13 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdodau lleol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae gan lawer o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2016 ac mae'n goruchwylio'r addysg ar draws y pedwar safle. Cynorthwyir y pennaeth gan un athro arweiniol. Yn gyffredinol, caiff gwersi eu cyflwyno ar draws y pedwar safle gan gynorthwywyr addysgu.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018.

## Prif ganfyddiadau

***Cryfderau***

Mae disgyblion yn gwrtais â staff, â'i gilydd ac ymwelwyr.  Maent yn gweithio'n ddiwyd ar dasgau ar y cyd a thasgau unigol, yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau, yn holi'n briodol ac yn canmol ei gilydd am eu gwaith.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn.  Maent yn sefydlu ac yn cynnal perthnasoedd ymddiriedus gyda disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu at lefel uchel ymgysylltiad ac ymddygiad cadarnhaol disgyblion.

Mae staff yn amyneddgar, yn enwedig wrth gynorthwyo disgyblion i ddeall, ac yn ymateb yn briodol i'w teimladau.

Mae'r ysgol yn dechrau elwa ar y cysylltiadau y mae wedi eu sefydlu â chonsortiwm addysg ranbarthol lleol ac ysgolion arbennig eraill a gynhelir.

***Meysydd i'w datblygu***

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol [Cymru] 2003.

At ei gilydd, mae cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr arolygiad craidd yn 2018 yn rhy araf.  Yn benodol, nid yw'r ysgol yn gweithio'n ddigon da gyda phartneriaid i sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn nodi meysydd i'w datblygu yn ddigon da.

Nid yw'r strwythur staffio presennol yn galluogi'r ysgol i sicrhau ansawdd ei gwaith yn ddigon da.

Nid oes gan yr ysgol ddull strategol i ddatblygu medrau cynorthwywyr addysgu i gynorthwyo disgyblion â'u dysgu.

Nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartrefi gofal i gefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol disgyblion yn ddigyswllt, a heb eu datblygu'n ddigonol.

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol [Cymru] 2003

A2 Ffurfioli cysylltiadau ag ysgolion a sefydliadau eraill i gryfhau prosesau cynllunio gwelliant

A3 Cynyddu cyflymdra gweithgarwch i fodloni argymhellion yr arolygiad craidd yn 2018

A4 Adolygu rolau a chyfrifoldebau pob un o'r staff

A5 Ffurfioli cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n gliriach ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd yr addysgu**

Mae'r ysgol wedi dechrau cyflwyno nifer o weithgareddau addas i gryfhau ei dealltwriaeth o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau gyda staff yr ysgol, ymweld ag ysgolion eraill a defnyddio ymgynghorwyr allanol. Yn ychwanegol, mae'r pennaeth wedi sefydlu cyswllt â phenaethiaid ysgolion arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi datblygu prosesau systematig, nac wedi elwa ar gysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill, i ddatblygu proses drylwyr ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Er enghraifft, nid yw'n gwneud defnydd digon da o'r wybodaeth olrhain gyfyngedig sydd ganddi am ddisgyblion. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol yn cofnodi barn uwch arweinwyr yn rheolaidd o fewn sefydliad Priority Childcare, ymhlith staff cartrefi gofal, rhieni na disgyblion.

Mae'r ysgol wedi nodi nifer o flaenoriaethau gwella. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu medrau disgyblion, cyflwyno system olrhain i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff. Mae'r ffocws ar ddatblygu medrau disgyblion wedi'i gyfyngu i brynu meddalwedd gyfrifiadurol ar y cyfan, ac nid yw'n canolbwyntio cystal ag y gallai ar wella medrau cynorthwywyr addysgu sy'n darparu addysgu a hyfforddiant ar gyfer llawer o'r disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod staff yn asesu safonau disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer dilyniant**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o asesiadau gwaelodlin i sefydlu gallu disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, ac yn ddiweddar iawn, mae wedi cyflwyno system electronig i fonitro ac olrhain y cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu. Mae'r rhain yn cyd-fynd â lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol, ar y cyfan. Mae arweinwyr yn yr ysgol yn cydnabod nad yw'r asesiadau a ddefnyddir yn nodi anghenion pob un o'r disgyblion yn ddigon da.

Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar eu gwaith, ar y cyfan. Mae sylwadau ysgrifenedig yn gadarnhaol a dathliadol. Fodd bynnag, collir cyfleoedd i gywiro gwaith disgyblion.

Mae'r athro arweiniol yn gyfrifol am gydlynu asesu anghenion disgyblion, monitro cynnydd disgyblion, cynllunio'r cwricwlwm, cynghori cynorthwywyr addysgu ar draws safleoedd y pedair ysgol a chynllunio'r gwersi unigol ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae ehangder y cyfrifoldeb, ynghyd ag ymrwymiad addysgu amser llawn, yn golygu na all yr ysgol fodloni gofynion yr argymhelliad hwn yn ddigon da. Mae'r trefniadau presennol yn anhylaw ac anghynaliadwy, ac yn peryglu gwelliant cyffredinol yn yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno offeryn defnyddiol ar gyfer nodi ac olrhain amrywiaeth o wybodaeth ynghylch lles ac anghenion datblygiadol disgyblion. Mae'n

dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol wrth osod targedau mewn cynlluniau addysg unigol.

**Argymhelliad 3: Gwella medrau ysgrifennu disgyblion**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol yn dechrau blaenoriaethu'r cynnydd a wna disgyblion yn ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Er enghraifft, yn dilyn ymweliadau â chanolfan leol ar gyfer cŵn wedi'u hachub, fferm eglwys a chyfleuster garddio, mae disgyblion yn creu portffolios, ac yn ysgrifennu dyddiaduron myfyriol a ryseitiau ar gyfer y llysiau y maent wedi'u tyfu. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau gwaith estynedig. Maent yn dechrau datblygu medrau effeithiol wrth gynllunio a golygu eu hysgrifennu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu â mwy o annibyniaeth a brwdfrydedd. O ganlyniad, maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ysgrifennu. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyflwyno yn dda. Dangosant ddealltwriaeth o eirfa a strwythur priodol, yn cynnwys defnyddio paragraffau.

Mae staff yn dechrau nodi a rhannu arfer dda a nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain. Fodd bynnag, nid oes dull strategol na chyson ar gyfer cynorthwyo staff i wella addysgu ac asesu ysgrifennu. Mae gwendidau mewn sicrhau ansawdd yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion.

**Argymhelliad 4: Gwella defnydd disgyblion o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ymchwilio a chyflwyno gwaith**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod addas o gymwysiadau sy'n cefnogi ymgysylltiad disgyblion â TGCh yn ehangach. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfle a gaiff disgyblion i ddefnyddio cyfrifiaduron.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o TGCh i ymchwilio a chyflwyno eu gwaith, er enghraifft wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am ryseitiau i'w dilyn mewn gwersi arlwyo ac wrth ymchwilio i'r Pla Du.

Mae disgyblion yn defnyddio cyflwyniadau ar-lein i'w hysbrydoli i ysgrifennu eu barddoniaeth eu hunain, ac yn gwneud cyflwyniadau ar destunau astudio a diddordebau personol. Mae hyn yn datblygu medrau gwerthfawr ar draws meysydd y cwricwlwm, hyder a hunan-barch.

Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau cydweithio ag ysgolion eraill er mwyn nodi a rhannu arfer dda. Fodd bynnag, nid yw'r drefn o ran cydlynu TGCh ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan staff y medrau angenrheidiol i gynllunio'n systematig fel bod disgyblion yn gwneud y cynnydd angenrheidiol yn y medr gwerthfawr hwn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm ac sy'n cael ei gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a gweithredu'r rhain yn effeithiol 1[3][a]
- Sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol a bod gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio, a rheoli amser yn ddoeth 1[3][c]

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod yr ysgol wedi paratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol i gydymffurfio â Chylchlythyr 005/2008 Llywodraeth Cymru; Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/2015; Diogelu plant mewn addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002; Cylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru: Diogelu plant mewn addysg: Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill. 3[2][b]
- Sicrhau bod yr ysgol yn cynnal cofrestr derbyn a chofrestr presenoldeb, yn unol â Rheoliadau Addysg [Cofrestru Disgyblion] [Cymru] 2010. 3[9]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2020